


# Archwilio Cofebau

## Pam mae cofebau yn cael eu codi?







- Mae cofebau yn cael eu codi i goffáu digwyddiad neu berson.

- Y math mwyaf cyffredin o gofeb yw cofeb rhyfel. Mae'r rhain yn cael eu codi ar ôl rhyfeloedd er cof am bobl o'r ardal gafodd eu lladd.

## Sut mae darganfod rhagor am gofebau?

- Yn gyntaf, penderfynwch a ydy hi'n gofeb rhyfel ai peidio. Bydd cofebau rhyfel yn sôn am 'Y Rhyfel Mawr' (Y Rhyfel Byd Cyntaf) neu ryfel arall fel 'Yr Ail Ryfel Byd', 'Korea' neu 'Ynysoedd y Falkand'. Yn aml mae yna gerflun o filwr arnyn nhw.

- Os ydy hi'n gofeb rhyfel, rhan amlaf fe welwch restri o enwau gyda llythrennau cyntaf ar eu hôl. Mae'r llythrennau hyn yn dalfyriadau sy'n dangos ym mha ran o'r lluoedd arfog roedd y person yn gwasanaethu (ee ar y gofeb hon mae RWF yn golygu'r Royal Welsh Fusiliers ac mae RE yn golygu Royal Engineers. Mae'r llythrennau MC yn dweud wrthoch chi bod yr Is-gapten Cadman wedi ennill medal o'r enw'r 'Military Cross' am ddewrder).




- Yn aml mae rheng person yn ymddangos mewn talfyriadau o flaen ei enw, (ee Sc Lt am Ail is-gapten, Cpl am Corporal neu Flt Sgt am Awyr-Ringyll.

- I ddeall y talfyriadau hyn, mae angen i chi siarad â phobl sy'n gwybod llawer am y lluoedd arfog. Gallech chwilio ar y rhyngrwyd am 'dalfyriadau milwrol' ar gyfer y cyfnod cywir*.

- Os nad ydy hi'n gofeb rhyfel, yna gwnewch nodyn ar gyfer pwy neu beth y cafodd ei chodi yn ogystal â phryd y cafodd ei chodi.

- Ewch i'r adran Astudiaethau Lleol yn y llyfrgell agosaf a gofyn i'r llyfrgellydd am y gofeb. Fe fyddan nhw'n gallu dangos llyfrau a hen bapurau newydd i chi lle gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

- Efallai bydd y rhyngrwyd yn gallu'ch helpu chi hefyd os oes rhywun wedi llunio safle Hanes lleol!*

* Peidiwch byth â defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio heb ddweud wrth oedolyn beth rydych yn mynd i'w wneud.


© BBC



Cofeb rhyfel ydy hon.

Mae'r talfyriadau yma'n dweud wrthoch chi ym mha ran o'r lluoedd arfog roedd y dynion yn gwasanaethu pan gawson nhw'u lladd.

RAFVR (Royal Air Force Volunteer Reserve)
R SIGNALS (Royal Signals yn y Fyddin)
RAF (Royal Air Force)
RN (Royal Navy)
WELSH GDS (Welsh Guards yn y Fyddin)
RE (Royal Engineers yn y Fyddin)
RA (Royal Artillery yn y Fyddin)








Allwch chi weld yr afr? Masgot y milwyr ydy hi ac mae'r un gatrawd yn dal i gadw gafr heddiw.

Weithiau mae cofebau mewn un wlad yn coffáu rhywbeth a ddigwyddodd mewn un arall. Cafodd y gofeb yma ei chodi yng Nghaerdydd yn 1999 i goffáu'r rhai fu farw yn y Newyn Mawr yn Iwerddon rhwng 1845 ac 1849.





Dyma gofeb CS Lewis, yr awdur.

Allwch chi ddyfalu beth yw'r cysylltiad rhwng y gofeb yma a'i lyfr enwog?

© BBC